

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cofnodion cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd ar 17 Chwefror, 2025.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: G. Chapman (Cadeirydd ac Aelod Lleyg); N. Ireland (Is-Gadeirydd ac Aelod Lleyg); Cynghorwyr P. Drake, E. Goodjohn, M.J. Hooper, J.M. Norman, J. Protheroe a N.J. Wood; a M. Evans (Aelod Lleyg).

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau), H.C. Hamilton, W.A. Hennessy, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles) a E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

COFNODION –

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a ailgynnullwyd a gynhaliwyd ar 6 Ionawr, 2025 fel cofnod cywir.

DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cadeirydd, G. Chapman, fuddiant personol mewn perthynas ag Eitem Agenda Rhif 5 – Asesiad Perfformiad Panel Cyngor Bro Morgannwg. Natur y buddiant oedd bod gan y Cadeirydd berthynas waith flaenorol gydag un o aelodau'r Panel ond nid oedd y buddiant yn un oedd yn rhagfarnu felly arhosodd y Cadeirydd yn y cyfarfod i ystyried yr adroddiad.

CYFLWYNIAD: BARGEN DDINESIG RHANBARTH CAERDYDD – CYFRIFON 2023/24 –

Croesawodd y Pwyllgor L. Hull, Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau (Swyddog Adran 151), a oedd wedi'i wahodd i roi trosolwg o gyfrifon Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Roedd cyflwyniad L. Hull yn cynnwys y canlynol:

- Trosolwg o'r Fargen Ddinesig a'i chefnidir;
- Oedi i Ddatganiadau Ariannol Blaenorol o ganlyniad i heriau oherwydd capasiti trefniadau cyfrifyddu blaenorol ac un pwynt methiant a arweiniodd at oedi, cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer adolygu gan gyfoedion a effeithiodd ar adolygiad o ansawdd y cyfrifon, cymhlethdodau llawer o'r trafodion yn mynd trwy gyfrifon y Fargen Ddinesig (buddsoddiadau ecwiti ac ati) a oedd yn eithaf newydd yn y sector cyhoeddus a heriau technegol yr oedd angen gweithio drwyddynt ac a oedd yn gofyn am fwy o waith maes;
- Statws Cyfredol Cyfrifon 2023/24 oedd y datganiad cyfrifon cyntaf a gynhyrchwyd ers sefydlu Prifddinas-Ranbarth Caerdydd fel corff cyhoeddus;
- Mwy o gapasiti a gallu wedi'u hychwanegu i'r Tîm;
- Lefel ychwanegol o gymhlethdod oherwydd defnyddio system ariannol newydd ar gyfer 2024/25 ymlaen ond dal i gau cyfrifon 2023/24;
- Roedd Cyfrifon Drafft ar gyfer 2023/24 wedi'u cyflwyno i Archwilio Cymru yn dilyn gwiriadau sicrwydd ansawdd mewnol cadarn;
- Yng nghanol y ffenestr archwilio (mis Ionawr a mis Chwefror) ac ar y trywydd iawn i'r cyfrifon gael eu cymeradwyo cyn diwedd y flwyddyn ariannol;
- Ymrwymiad i gyfrifon 2024/25 gael eu cynhyrchu yn unol â'r amserlen Awdurdod Lleol – Cyfrifon drafft erbyn diwedd mis Mehefin 2025 a'r cymeradwyo terfynol erbyn diwedd mis Hydref 2025.

Gofynnodd y Cynghorydd E. Goodjohn a oedd unrhyw ddysgu wedi bod gan gyrff rhanbarthol eraill yng Nghymru a sut y byddai materion sy'n ymwneud ag adolygu gan gyfoedion yn cael eu datrys. Mewn ymateb, dywedodd L. Hull, gan fod 10 Awdurdod Lleol o fewn y Fargen Ddinesig, fod trefniadau llywodraethu cryf ar waith a mecanweithiau ar gyfer cymorth corfforaethol, a oedd wedi'u defnyddio trwy sawl Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG). O ran adolygu gan gyfoedion, roedd hynny'n ymwneud â'r broses o adolygu a chraffu'n fewnol ar y cyfrifon drafft cyn eu cyflwyno. Byddai'n heriol felly o safbwynt amserlen i gynnal adolygiad gan gyfoedion allanol. Wrth i Gydbwyllgorau ledled Cymru ddod yn fwy sefydlog, byddai cyfle i adeiladu ar drefniadau trawsweithio. Yn ogystal, roedd perthynas waith agos gydag Awdurdodau Lleol drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a oedd wedi caniatáu i arferion gwaith ar y cyd ddod drwodd. Roedd cymorth hefyd ar gael drwy gyfarfodydd chwarterol gyda Swyddogion Adran 151 eraill y 10 Awdurdod Lleol partner ac roedd y Gweithgor Prif Gyfrifwyr yn ogystal â digwyddiadau rhwydweithio ac arfer da.

Gwnaeth y Cynghorydd M. Hooper sylwadau ar y materion a'r heriau cyfrifyddu a oedd yn bresennol pan oedd y Fargen Ddinesig yn agosáu at ei phwynt hanner ffordd a gofynnodd am fwy o fanylion mewn perthynas â'r cymhlethdodau a oedd wedi achosi oedi wrth gymeradwyo'r cyfrifon a hefyd yr un pwynt methiant. Mewn ymateb, dywedodd L. Hull, o ran cymhlethdodau, fod cydbwysedd rhwng yr agweddau corfforaethol a masnachol ar gwmnïau y bu'n rhaid ei fwydo i gyfrifon Awdurdodau Lleol yn y pen draw. Roedd hynny'n golygu bod safonau cyfrifyddu gwahanol ac arferion cyfrifyddu gwahanol yn eistedd yno. O ran y system ariannol, roedd hynny'n cael ei rheoli'n flaenorol gan Gyngor Dinas Caerdydd, ond gyda sefydlu'r corff Cydbwyllgor Corfforaethol newydd, ystyriwyd ei bod yn briodol dyfeisio model newydd a oedd bellach yn cael ei ddarparu drwy Gyngor Rhondda Cynon Taf

drwy sawl CLG. Roedd rhai heriau cychwynnol ond roedd hyder bod y rheiny wedi'u datrys. Mewn perthynas ag adnoddau, dywedodd L. Hull mai dim ond ar y flwyddyn flaenorol ac ers sefydlu'r corff corfforaethol ar y cyd y gallai wneud sylwadau. Ystyriwyd bod lefel yr adnoddau presennol yn ddigonol, tra bod y model blaenorol yn dibynnu ar adnoddau a ddyrannwyd ac a oedd ar gael i Gyngor Dinas Caerdydd.

Dywedodd y Cyngorydd N. Wood fod pryder ei bod yn angenrheidiol cynyddu adnoddau ar ôl 8 mlynedd o weinyddu prosiect gwerth £1.2 biliwn. Ailadroddodd L. Hull mai dyma flwyddyn gyntaf y Fargen Ddinesig fel endid cyhoeddus annibynnol ac ychwanegodd fod set flaenorol o gyfrifon ar gyfer blynyddoedd ariannol wedi'u cynhyrchu ac wedi derbyn barn archwilio anghymwys. Ystyriwyd bod adnoddau digonol. Nododd y Cyngorydd Hooper yr amser yr oedd wedi'i gymryd i'r mater gael ei ddwyn gerbron y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Ychwanegodd y Cadeirydd, G. Chapman, ei bod yn bwysig cofio bod cymeradwyo'r cyfrifon ar gyfer Awdurdodau Lleol wedi cael ei ohirio'n rhannol oherwydd problemau capasiti o fewn Archwilio Cymru. Dywedodd L. Hull, o drafodaethau gydag Archwilio Cymru, fod ymrwymiad i gyfrifon y Fargen Ddinesig gael eu cwblhau o fewn yr un amserlenni ag Awdurdodau Lleol.

Dywedodd y Cadeirydd hefyd fod cwestiwn i'w ateb ynglŷn â'r trefniadau cyfrifyddu blaenorol ac a oedd digon o gapasiti yng Nghyngor Dinas Caerdydd. Yn ogystal, byddai'n ddiddorol deall y broses dendro ar gyfer y gwahanol CLGau gyda Chyngor Rhondda Cynon Taf ac a fu cyfleoedd i Awdurdodau Lleol eraill ddarparu gwasanaeth. Cytunwyd i adroddiad pellach ar hynny gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Wedi hynny, yr oedd

PENDERFYNWYD –

- (1) Nodi cynnwys y cyflwyniad.
- (2) Diolch i Swyddog Adran 151 Bargen Ddinesig Rhanbarth Caerdydd am ddod.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1&2) Ystyried cynnwys y cyflwyniad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

ASESIAD PERFFORMIAD PANEL CYNGOR BRO MORGANNWG (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Cabinet dyddiedig 6 Chwefror, 2025 fel y'i cynhwyswyd yn yr agenda gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol ar y cyd â'r Prif Weithredwr a'r Cyngorydd L. Burnett, Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau.

Dywedodd G. Chapman (Cadeirydd ac Aelod Lleyg) ei fod yn adroddiad da, yn cynnwys meysydd i'w gwella a nodwyd, a chynigiodd ddiolch i'r Aelodau Etholedig,

swyddogion a thîm y staff am ganlyniad da a ddangosodd werth y Cyngor fel sefydliad.

Cynigiodd y Cynghorydd E. Goodjohn longyfarchiadau am adroddiad cadarnhaol, y dylid ei gymryd yng nghyd-destun 15 mlynedd o galedi a olygai fod adnoddau a chapasiti llywodraeth leol ledled Cymru wedi lleihau. Roedd yn bwysig felly tynnu sylw at sut yr oedd yr agenda newid ledled Cymru i gael ei chyfleu i'r cyhoedd. Croesawyd y symudiad i ymagwedd sir gyfan at y Cynllun Corfforaethol yn hytrach na chanolbwyntio ar y Cyngor fel sefydliad. Roedd yn bwysig sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o flaenoriaethau allweddol y Cyngor a newidiadau i'r modd y darperir gwasanaethau, yn enwedig yng nghyd-destun adnoddau prin. Mewn ymateb a chyda chaniatâd i siarad, dywedodd y Cynghorydd L. Burnett, yr Arweinydd Gweithredol, fod cydbwysedd dyrys gan fod adnoddau'n brin a bod heriau megis yr argyfwng costau byw a chynnydd mewn prisiau ynni. Anodd iawn felly oedd cyfleu un neges i'r cyhoedd, a dyna pam y byddai'r Cyngor yn ceisio defnyddio amrywiaeth o negeseuon, gan gynnwys ar gyfryngau cymdeithasol. O ran ymagwedd sir gyfan, enghraifft o hynny oedd mewn perthynas ag iechyd nad oedd yn uniongyrchol o fewn cylch gorchwyl y Cyngor, ond roedd datblygiadau cymunedol pwysig ar y cyd yn digwydd er budd cymunedau a chafodd y camau yr oedd y Cyngor yn eu cymryd effaith uniongyrchol ar y gwasanaethau a ddarperir gan y GIG. Ymhlith yr enghreifftiau roedd clinig cymunedol newydd wedi'i gynllunio ar gyfer Heol Holton yn y Barri a chyfleuster newydd wedi'i glustnodi yn Llanilltud Fawr. Byddai gweithio ar y cyd â rhanddeiliaid a phartneriaid yn bwysicach fyth wrth symud ymlaen.

Mewn perthynas â'r sylwadau uchod, ychwanegodd y Prif Weithredwr, o ran arwyddo newid a materion yn ymwneud â'r naratif o fewn y Cynllun Corfforaethol nad oedd o gwmpas y Cyngor fel sefydliad ond yn lle Bro Morgannwg, a oedd yn werthiant caled o ystyried 10 i 15 mlynedd o doriadau cyllidebol. Roedd y Cyngor wedi'i gwneud yn glir bod swm sylweddol o'i gyllideb wedi'i dyrannu i ysgolion ac i gefnogi'r trigolion mwyaf agored i niwed, ac roedd barn y cyhoedd yn cefnogi hynny. Roedd hynny wedi golygu bod rhaid naill ai lleihau adnoddau i wasanaethau anstatudol eraill neu newid y ffordd y cânt eu darparu. Felly, roedd y Cyngor wedi mynd ati i weithio gyda phartneriaid, megis Cynghorau Tref a Chymuned, grwpiau cymunedol a sefydliadau gwirfoddol gan gynnwys trosglwyddo asedau cymunedol, a byddai mwy o hynny'n cael ei wneud. Roedd yn bwysig cydnabod, mewn rhai achosion, y byddai grwpiau cymunedol yn gallu cael mynediad at arian grant a wrthodwyd i'r Cyngor a darparu gwasanaethau a allai fod wedi dod i ben pe baent wedi aros o fewn y Cyngor. Roedd honno'n neges bwysig yr oedd angen ei chyfleu i'r cyhoedd. Yn ogystal, roedd creu lleoedd yn ddatblygiad pwysig o ran deall a diwallu anghenion cymunedau lleol, ac roedd angen mwy o hynny.

Holodd y Cynghorydd M. Hooper a fyddai'r Cyngor yn ystyried canfyddiadau adroddiad Archwilio Cymru ynghylch cynaliadwyedd ariannol cyrff cyhoeddus yng Nghymru gan gyfeirio at yr anawsterau yr oedd Cynghorau'n eu hwynebu o ran cynllunio ariannol tymor canolig a thymor hwy. Dywedodd y gellid gwella'r swyddogaeth Graffu, gydag elfen allweddol o hynny yn sicrhau bod aelodau'r Pwyllgor yn ymgysylltu mwy mewn cyfarfodydd ac yn gofyn cwestiynau priodol. Yn olaf, dywedodd y Cynghorydd Hooper bod gofal gyda Throsglwyddo Asedau Cymunedol gan ei bod yn bwysig sicrhau nad oedd rhai grwpiau bregus yn cael eu heithrio o'r gallu i ddod yn wirfoddolwyr a chymryd rhan mewn prosiectau.

Mewn ymateb i'r Cynghorydd Hooper, dywedodd y Prif Weithredwr nad oedd yn anghytuno â chanfyddiadau Archwilio Cymru. Bu'n ddewis bwriadol i'r Cynllun Corfforaethol fod yn uchelgeisiol ac roedd yn bwysig i'r Cyngor ddeall anghenion cymunedau, a dyna pam fod gan y Cynllun Corfforaethol elfen sylweddol yn ymwneud â chryfhau cymunedau a chefnogi ein trigolion mwyaf bregus. Thema allweddol arall yn y Cynllun Corfforaethol oedd rhoi dechrau da mewn bywyd i bobl ifanc. Felly, roedd yr adnoddau a ddyrannwyd gan y Cyngor yn adlewyrchu'n benodol y tair thema allweddol hynny.

O ran trefniadau Craffu yn y dyfodol, rhoddodd y Prif Weithredwr wybod nad swm y cyfarfodydd Pwyllgor fyddai'r allwedd i hynny, ond yn hytrach pwrpas ac ansawdd y craffu sy'n digwydd. Roedd hynny'n golygu bod symud i wneud mwy o Waith Gorchwyl a Gorffen ymchwiliol yn ymwneud â phethau sy'n bwysig ac yn gysylltiedig â'r amcanion gyda'r Cynllun Corfforaethol. O ran Trosglwyddo Asedau Cymunedol, cyfeiriodd y Prif Weithredwr at y gwaith sy'n cael ei wneud yng Ngogledd-ddwyrain y Barri. Roedd hynny'n ymwneud â threulio amser gyda'r gymuned, gan edrych ar beth oedd yr anghenion penodol, beth oedd y gofynion penodol a sut y gallai'r Cyngor wella cyfleoedd bywyd trigolion. Roedd gwaith yn mynd rhagddo i gryfhau cymunedau, ond roedd mwy y gellid ei wneud.

Dywedodd y Cynghorydd E. Goodjohn fod yr asesiad yn gyfle i newid y swyddogaeth Craffu a'r ffordd y perfformiodd y Cyngor trwy ei Gynllun Corfforaethol newydd. Fodd bynnag, dylid cydnabod bod angen adeiladu capasiti o fewn y Cyngor i gyflawni ei amcanion ac i ymgysylltu â'r cyhoedd ac yna ymgynghori â'r cyhoedd. Roedd angen mwy o gapasiti ar y Cyngor hefyd er mwyn gwella ymgysylltiad y cyhoedd er mwyn sicrhau cyrhaeddiad digonol o fewn cymunedau.

Dywedodd y Cadeirydd fod angen i'r Cyngor fod yn fwy beiddgar o ran penderfyniadau ynghylch gwasanaethau, yn enwedig yng nghyd-destun galw cynyddol mewn rhai gwasanaethau. Efallai y bydd angen i'r Cyngor roi'r gorau i ddarparu gwasanaethau anstatudol a oedd hefyd yn gofyn am sgwrs onest gyda'r cyhoedd ynghylch pam roedd y Cyngor wedi dewis rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaeth. Byddai hynny'n gofyn am newid diwylliant. Yn ymateb y Cyngor i'r Asesiad Perfformiad Panel, nid oedd unrhyw sôn yn benodol am bobl ifanc ac felly roedd lle i edrych ar sut roedd pobl ifanc yn ymgysylltu a sut roedd eu lleisiau yn cael eu clywed.

Dywedodd y Cadeirydd hefyd y dylid ystyried meysydd gweithio mewn partneriaeth nad ydynt efallai yn ychwanegu gwerth gwirioneddol ac sy'n cynrychioli treth ar adnoddau. O ran arbedion a phwysau cyllidebol, roedd lle i sgysiau gydag lechyd gael eu cynnal am y cyfraniad a wnaeth gwasanaethau sy'n cael eu rhedeg gan y Cyngor fel Gofal Cymdeithasol a Hamdden i gefnogi gwasanaethau ieuchyd. Dywedodd y Cadeirydd fod angen ystyried y broses o wneud penderfyniadau a chynllun dirprwyo'r Cyngor er mwyn sicrhau y gallai materion llai dibwys gael eu penderfynu gan swyddogion. Yn ychwanegol, gellid cryfhau'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau oherwydd sylwadau amhriodol yn cael eu gwneud yng nghyfarfodydd y Pwyllgor.

Yn olaf, gofynnodd y Cadeirydd i gynnydd yn erbyn y meysydd argymhellion sy'n deillio o'r Asesiad Perfformiad Panel gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ochr yn ochr â'r argymhellion eraill a gynhwysir yn nhraciwr yr Adroddiad Rheoleiddiol.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau nac ymholiadau pellach, felly

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi cynnwys yr adroddiad a'r atodiadau.

(2) BOD sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael eu cyfeirio at y Cabinet iddynt gael eu hystyried. Mae crynodeb o'r sylwadau allweddol fel a ganlyn:

- Roedd canfyddiadau'r asesiad yn dangos gwerthoedd y sefydliad, ac felly dylid trosglwyddo diolch i'r staff a'r Aelodau Etholedig.
- Roedd yn bwysig cydnabod bod lefel yr adnoddau a chapasiti llywodraeth leol ledled Cymru wedi cael eu lleihau ar ôl 15 mlynedd o lymder. Roedd y ffordd yr oedd yr agenda newid yn cael ei nodi i'r cyhoedd hefyd yn bwysig. Croesawyd y symud i ddull sir gyfan yn hytrach na chanolbwyntio ar y Cyngor fel sefydliad ac roedd yn bwysig sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o flaenoriaethau allweddol y Cyngor a'r newidiadau i wasanaethau, yn enwedig yng nghyd-destun llai o adnoddau.
- Roedd angen i'r Cyngor wella cyfathrebu â'r cyhoedd, yn enwedig mewn perthynas â'r gofyniad i'r Cyngor gyflawni cyllideb gytbwys. Dylai ymgysylltu â chymunedau ddigwydd yn gyntaf i gael gwybod beth oedd eu hanghenion, a dylid dilyn hynny gydag ymgynghoriad ar gynigion penodol a chynlluniau'r Cyngor.
- Roedd gweithio mewn cydweithrediad â phartneriaid a rhanddeiliaid yn hynod bwysig.
- Roedd yn bwysig i'r Cyngor ystyried canfyddiadau adroddiad Archwilio Cymru ynghylch cynaliadwyedd ariannol cyrff cyhoeddus yng Nghymru gan gyfeirio at yr anawsterau yr oedd Cyngorau yn eu hwynebu o ran cynllunio ariannol tymor canolig a hirdymor.
- Roedd angen gwella'r swyddogaeth Craffu ond elfen allweddol o hynny oedd sicrhau bod aelodau'r Pwyllgor yn cymryd mwy o ran mewn cyfarfodydd ac yn gofyn cwestiynau priodol.
- O ran Trosglwyddo Asedau Cymunedol a gwaith cymunedol ehangach, roedd yn bwysig sicrhau nad oedd rhai grwpiau agored i niwed yn cael eu heithrio o'r gallu i ddod yn wirfoddolwyr a chymryd rhan mewn prosiectau.
- Roedd yr asesiad yn gyfle i newid y swyddogaeth Craffu a'r ffordd y perfformiodd y Cyngor trwy ei Gynllun Corfforaethol newydd. Fodd bynnag, dylid cydnabod bod angen adeiladu capasiti o fewn y Cyngor i gyflawni ei amcanion.
- Roedd angen mwy o gapasiti ar y Cyngor hefyd er mwyn gwella ymgysylltiad y cyhoedd er mwyn sicrhau cyrhaeddiad digonol o fewn cymunedau.

- Roedd angen i'r Cyngor fod yn fwy beiddgar o ran penderfyniadau ynghylch gwasanaethau, yn enwedig yng nghyd-destun galw cynyddol mewn rhai gwasanaethau. Efallai y bydd angen i'r Cyngor roi'r gorau i ddarparu gwasanaethau anstatudol a oedd hefyd yn gofyn am sgwrs onest gyda'r cyhoedd ynghylch pam roedd y Cyngor wedi dewis rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaeth. Roedd hynny'n gofyn am newid diwylliant.
- Yn ymateb y Cyngor i'r Asesiad Perfformiad Panel, nid oedd unrhyw sôn yn benodol am bobl ifanc ac felly roedd lle i edrych ar sut roedd pobl ifanc yn ymgysylltu a sut roedd eu lleisiau yn cael eu clywed.
- Dylid hefyd ystyried y meysydd gweithio mewn partneriaeth nad ydynt efallai yn ychwanegu gwerth gwirioneddol ac sy'n cynrychioli treth ar adnoddau.
- O ran arbedion a phwysau cyllidebol, roedd lle i sgwrsiau gydag lechyd gael eu cynnal am y cyfraniad a wnaeth gwasanaethau sy'n cael eu rhedeg gan y Cyngor fel Gofal Cymdeithasol a Hamdden i gefnogi gwasanaethau ieuchyd.
- Dylid cryfhau'r Cod Ymddygiad Aelodau.
- Roedd angen ystyried y broses o wneud penderfyniadau a chynllun dirprwyo'r Cyngor.
- Dylid ymgorffori cynigion ar gyfer camau gweithredu'r Cyngor mewn ymateb i'r Asesiad Perfformiad Panel yn Nhraciwr yr Adroddiad Rheoleiddiol a'u hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) Er mwyn i'r Cabinet fod yn ymwybodol o sylwadau'r Pwyllgor.

ARCHWILIO CYMRU: CYNALIADWYEDD ARIANNOL LLYWODRAETH LEOL, RHAGFYR 2024 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol dyddiedig 15 Ionawr, 2025 fel y'i cynhwyswyd yn yr agenda gan y Pennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151.

Dywedodd y Cyngorydd M. Hooper fod difrifoldeb yr heriau ariannol sy'n wynebu cynghorau yn rhywbeth nad oedd y rhan fwyaf o'r cyhoedd yn gwbl ymwybodol ohono, a rôl y Llywodraeth Ganolog oedd sicrhau bod gan awdurdodau lleol yr adnoddau angenrheidiol.

Ychwanegodd y Cadeirydd, o ran cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, ychydig iawn o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy oedd gan rai Awdurdodau Lleol yng Nghymru tra bod gan rai Cynghorau gronfeydd wrth gefn o fwy na £200m. Felly, roedd cyfle i Lywodraeth Cymru ystyried lefel y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy o fewn Cynghorau fel rhan o broses setliad y gyllideb.

Y Pwyllgor

PENDERFYNWYD –

- (1) Nodi canfyddiadau adroddiad Archwilio Cymru ar Gynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol, Rhagfyr 2024.
- (2) Bod yr adroddiad a sylwadau'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau yn cael eu cyfeirio at y Cabinet i'w hystyried.
- (3) BOD, yn ogystal â sylwadau'r Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol, sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio hefyd yn cael eu cyfeirio at y Cabinet. Roedd sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ymwneud â'r canlynol:

- Roedd rôl Llywodraeth ganolog i sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn cael digon o adnoddau;
- Nodwyd, o ran cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio, fod gan rai Awdurdodau Lleol yng Nghymru ychydig iawn o gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio ar gael tra bod gan rai Cyngorau gronfeydd wrth gefn dros £200m. Felly, roedd cyfle i Lywodraeth Cymru ystyried lefel y cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio o fewn Cyngorau fel rhan o broses setlo'r gyllideb.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (2&3) Er mwyn i'r Cabinet fod yn ymwybodol o sylwadau'r ddau Bwyllgor.

STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS A BUDDSODDI 2025/26 A DIWEDDARIAD AR GYFER 2024/25 (CAC) –

Rhoddodd yr adroddiad interim ddiweddariad ar weithrediadau Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 31 Rhagfyr 2024 gyda dangosyddion materion ariannol a thrysorlys wedi'u diweddarau wedi'u nodi yn Atodiad 1 gan gynnwys amcangyfrifon ar gyfer rhwymedigaethau hirdymor eraill fel rhan o safon brydlesu IFRS16.

Amlinellodd yr adroddiad hefyd Strategaeth Fuddsoddi, Isafswm Darpariaeth Refeniw Blynyddol a Rheoli Trysorlys 2025/26 arfaethedig wedi'i nodi yn Atodiad 2.

Roedd yr holl weithgareddau a gynhaliwyd yn 2024/25 yn unol â strategaeth gymeradwy'r Cyngor ar Reoli Trysorlys.

Newidiadau Technegol

Roedd IFRS16, sef y safon gyfrifyddu a ddaeth â'r asedau a'r rhwymedigaethau'n gysylltiedig ag asedau prydles y Cyngor i'r fantolen, wedi'i ymgorffori yn y dangosyddion perfformiad diwygiedig ar gyfer 2024/25 a Strategaeth Fuddsoddi,

Isafswm Darpariaeth Refeniw a Rheoli Trysorlys 2025/26 o fis Ebrill 2024. Roedd y rhwymedigaeth brydles ar bontio (1 Ebrill 2024) wedi'i chyfrifo ar £5.843m.

Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw

Roedd y Cyngor wedi adolygu'r polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw (IDR) presennol wedi'i nodi yn Strategaeth 2024/25. Yr IDR oedd y dull a ddefnyddiwyd gan Awdurdodau Lleol i godi cost eu gwariant cyfalaf a ariannwyd yn wreiddiol gan ddyled ar eu cyfrifon refeniw dros amser. Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 16 Rhagfyr 2004 yn diwygio'r Dull Bywyd Asedau wrth gyfrifo'r IDR ar gyfer dyled y Gronfa Gyffredinol a gefnogir, o 40 i 50 mlynedd. Roedd angen cymeradwyaeth y Cyngor Llawn cyn y gellid ei gyflwyno.

Sefyllfa a Strategaeth Fenthycu

Cyfanswm y benthycu allanol ar 31 Rhagfyr 2024 oedd £153.852m ar gyfradd gyfartalog o 4.26%.

Benthycwyd arian allanol newydd gwerth cyfanswm o £20.000m gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (BBGC) yn ystod 9 mis cyntaf 2024/25, £18.000m ar gyfradd gyfartalog o 4.15% a ddefnyddiodd y gyfradd prosiect arbennig ar gyfer cynlluniau'r Cyfrif Refeniw Tai a'r £2.000m a oedd yn weddill ar gyfradd sicrwydd o 4.75%.

Benthycwyd arian newydd ychwanegol o £2m gan Awdurdod Lleol ar gyfradd o 4.65% am 3 blynedd.

Sefyllfa a Strategaeth Fuddsoddi

Buddsoddodd y Cyngor gyda'r Cyfleuster Adneuo Rheoli Dyledion, Awdurdodau Lleol, Cronfeydd Marchnad Arian a Chyfrifon Galw Lloyds Bank. Cyfanswm y buddsoddiadau ar 31 Rhagfyr 2024 oedd £15.915m ar gyfradd gyfartalog o 5.09% dros y cyfnod o naw mis.

Strategaeth Rheoli Trysorlys 2025/26

Roedd angen i'r Cyngor sicrhau y cydymffurfiwyd â'r Cod Materion Ariannol, a ddatblygwyd ac a ysgrifennwyd gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) fel cod ymarfer proffesiynol, a ddiweddarwyd diwethaf ym mis Rhagfyr 2021. Er mwyn dangos bod y Cyngor wedi cyflawni'r amcanion hyn, wrth baratoi'r strategaeth flynyddol, nododd y Cod restr o ddangosyddion Materion Ariannol a Thrysorlys y dylid eu cyfrifo ynghyd â ffactorau eraill yr oedd angen eu hystyried. Roedd y dangosyddion hyn yng nghorff y Strategaeth a nodwyd yn Atodiad 2 yr adroddiad.

Roedd gan y Cyngor hefyd ofyniad cyfreithiol i gydymffurfio â Chanllawiau Llywodraeth Cymru ar Fuddsoddiadau ac roedd wedi ystyried y canllawiau hyn wrth ddatblygu'r Strategaeth.

Roedd disgwyl i Fenthycy Newydd yn y cyfnod rhwng 2025/26 a 2029/30 fod yn £228.862m ar gyfer Gwariant Cyfalaf newydd a £49.000m ychwanegol o fenthycy i gymryd lle benthyciadau a oedd yn aeddfedu ac roedd yn adlewyrchu gallu lleihaol y Cyngor i fenthycy'n fewnol dros y cyfnod.

Roedd gwariant cyfalaf, wrth gael ei ariannu gan ddyled hirdymor, yn mynd i ddwy elfen gost, llog ar y prif swm a fenthycwyd ac ad-dalu'r prif swm a fenthycwyd. Isafswm Darpariaeth Refeniw (IDR) oedd yr enw ar yr adnoddau yr oedd yn rhaid i'r Cyngor eu rhoi o'r neilltu ym mhob blwyddyn i ad-dalu'r prif swm a fenthycwyd, a nodwyd polisi cyfrifo'r Cyngor yn yr adroddiad.

Roedd y Datganiad Polisi Rheoli Trysorlys ar gyfer 2024/25 wedi'i atodi yn Atodiad 3 yr adroddiad.

Dyma oedd y Strategaeth Rheoli Trysorlys ddrafft, roedd ymgynghoriad cyllideb ar Gynigion y Rhaglen Gyfalaf yn cael ei gynnal ar hyn o bryd ac felly byddai unrhyw adolygiad i'r rhaglen yn deillio o'r ymgynghoriad yn golygu bod angen cyflwyno newidiadau i'r Strategaeth Rheoli Trysorlys derfynol a oedd i'w chyflwyno i'r Cabinet ar 6 Mawrth 2025.

Dywedodd y Cynghorydd E. Goodjohn fod rhywfaint o anghysondeb rhwng Tabl 4 a'r Fantolen. Cytunwyd i edrych ar hynny y tu allan i'r cyfarfod.

Gofynnodd M. Evans (Aelod Lleyg) am i adroddiadau yn y dyfodol gynnwys gwybodaeth ynghylch a oedd y rhagamcanion wedi bod yn gywir. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol – Cyfrifeg y byddai mwy o wybodaeth yn cael ei rhoi. Roedd yn gyffredin i ragamcanion golli alldro gwirioneddol, yn enwedig o ran cronfeydd wrth gefn ar gyfer prosiectau cyfalaf.

Wedi hynny, yr oedd

PENDERFYNWYD –

- (1) Nodi Adroddiad Interim Rheoli'r Trysorlys am y cyfnod 1af Ebrill i 31ain Rhagfyr, 2024.
- (2) Nodi'r polisi diwygiedig ar gyfer gwneud lleiafswm darpariaeth refeniw o 2024/25 ymlaen.
- (3) Y dylid nodi'r datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys a nodir yn Atodiad 3 i'r adroddiad, a'i gyfeirio at y Cabinet i'w gymeradwyo.
- (4) BOD y Strategaeth Fuddsoddi a Rheoli Trysorlys arfaethedig ar gyfer 2025/26 gan gynnwys y penderfyniadau penodol canlynol (wedi'u nodi yn Atodiad 2 yr adroddiad) yn cael eu nodi a'u cyfeirio at y Cabinet am gymeradwyaeth:
 - * Nodi'r Datganiad Polisi Rheoli Trysorlys wedi'i nodi yn Atodiad 2 yr adroddiad;
 - * Cymeradwyo'r Dangosyddion Materion Ariannol wedi'u nodi yn Atodiadau 1 a 2 yr adroddiad;

- * Pennu'r Terfyn Awdurdodedig ar gyfer Dyled Allanol ar £261.462m ar gyfer 2024/25, £282.62m ar gyfer 2025/26, £317.495m ar gyfer 2026/27 a £367.171m ar gyfer 2027/28;
- * Pennu'r Ffin Weithredol ar gyfer Dyled Allanol ar £245.238m ar gyfer 2024/25, £266.332m ar gyfer 2025/26, £300.094m ar gyfer 2026/27 a £349.825m ar gyfer 2027/28;
- * Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Swyddog Adran 151 o fewn cyfanswm y Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol fel yr amcangyfrifwyd ar gyfer blynyddoedd unigol i sicrhau symudiad rhwng y terfynau y cytunwyd arnynt ar wahân ar gyfer benthyca a rhwymedigaethau hirdymor eraill;
- * Pennu'r terfyn uchaf o £0m ar gyfer 2024/25, £10m ar gyfer 2025/26, £10m ar gyfer 2026/27 a £10m ar gyfer 2027/28 ar gyfer cyfanswm y prif symiau a fuddsoddwyd am dros 364 diwrnod
- * Pennu swm y benthyca rhagamcanol sy'n aeddfedu ar gyfradd sefydlog ym mhob cyfnod yn ganran o gyfanswm y benthyca rhagamcanol sy'n gyfradd sefydlog ar gyfer 2024/25, fel a ganlyn:

Tabl 1 - Terfynau uchaf ac isaf ar gyfer benthyca cyfradd sefydlog 2025/26

	Terfyn Uchaf	Terfyn Isaf
Dan 12 mis	20%	0%
12 mis ac o fewn 24 mis	40%	0%
24 mis ac o fewn 5 mlynedd	40%	0%
5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd	40%	0%
10 mlynedd a mwy	100%	0%

Bydd unrhyw doriadau i'r Dangosyddion Materion Ariannol yn cael eu hadrodd i gyfarfod nesaf y Cabinet, ac eithrio'r Terfyn Awdurdodedig ar gyfer Dyled Allanol a fyddai angen cymeradwyaeth y Cyngor Llawn ymlaen llaw.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(3&4) Sicrhau bod Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Buddsoddi Blynyddol yn cael ei pharatoi fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.

CH3 CYNNYDD YN ERBYN ARGYMHELLION RHEOLEIDDIO ALLANOL A CHYNYGION AR GYFER GWELLA (CAC) –

Amlinellodd yr adroddiad (a Thraciwr Insight y Bwrdd Mewnwelediad Strategol (BMS) a atodwyd i bapurau cefndir yr adroddiad) gynnydd y Cyngor hyd yma (Ionawr 2025) yn erbyn ei holl argymhellion a chynigion rheoleiddiol allanol presennol ar gyfer gwella.

Yn Chwarter 3, gwnaed cynnydd cadarnhaol wrth ymateb i feysydd gwella rheoleiddiol y Cyngor. Roedd 60 o gamau gweithredu yn parhau yn Nhraciwr

Insight y BMS gyda 95% (57) o gamau gweithredu wedi cael statws (CMG) perfformiad gwyrdd, 3% (2) statws perfformiad melyn, a 2% (1) statws perfformiad coch.

O'r 37 o gamau gweithredu yn ymwneud ag argymhellion rheoleiddiol lleol, roedd 97% (36) wedi cael statws CMG gwyrdd, 0% (0) statws melyn a'r 3% (1) yn weddill statws coch. Roedd y cam gweithredu a gafodd statws coch yn ymwneud ag adolygiad Safon Ansawdd Tai Cymru gan gynnwys tenantiaid tai'r Cyngor.

Roedd 23 o gamau gweithredu ar y gweill yn y Traciwr Insight yn ymwneud ag argymhellion rheoleiddiol cenedlaethol ac o'r rheiny roedd 91% (21) wedi cael statws CMG gwyrdd a 9% (2) statws CMG melyn. Roedd y camau gweithredu â statws perfformiad melyn yn ymwneud â'r Gwasanaethau Llywodraeth Leol i Gymunedau Gwledig ac adolygiadau 'Amser am Newid' - Tlodi yng Nghymru.

Yn dilyn ystyriaeth gan y Bwrdd Mewnwelediad Strategol, roedd datganiad sefyllfa Chwarter 3 y Traciwr Insight bellach yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac wedi hynny, y Cabinet ar gyfer goruchwyliaeth derfynol.

Yn unol â'i gylch gwaith, gofynnwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio adolygu cynnydd y Cyngor hyd yma wrth fynd i'r afael â'r argymhellion a'r cynigion ar gyfer gwella a wnaed gan reoleiddwyr allanol y Cyngor fel yr amlinellwyd yn Nhraciwr Insight y BMS wedi'i atodi (gan gynnwys dileu camau gweithredu wedi'u cwblhau) gyda'u barn yn cael ei chyfeirio at y Cabinet i'w hystyried.

Cytunwyd y byddai sut y byddai cynnydd mewn perthynas â gweithredu argymhellion gan yr Asesiad Perfformiad Panel yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael ei ystyried.

PENDERFYNWYD –

- (1) Nodi'r cynnydd hyd yma o ran mynd i'r afael ag argymhellion presennol a chynigion gwella a wnaed gan reoleiddwyr allanol y Cyngor.
- (2) Bod y Cabinet yn cael gwybod am argymhelliad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i gymeradwyo dileu camau gweithredu a gwblhawyd o Draciwr Mewnwelediad y Bwrdd Mewnwelediad Strategol (BMS).

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) Sicrhau bod Taciwr Mewnwelediad BMS y Cyngor yn adlewyrchu'r sefyllfa ddiweddaraf o ran argymhellion rheoleiddio'r Cyngor.

CYNNYDD YN ERBYN Y CYNLLUN SEILIEDIG AR RISG ARCHWILIO MEWNOL (PGAMR) –

Roedd y cynnydd a wnaed yn erbyn y cynllun archwilio mewnol ar 31 Rhagfyr, 2024

wedi'i nodi yn Atodiad A i'r adroddiad ac wedi'i grynhoi yn Atodiad B i'r adroddiad. Dangosodd fod 29 o adolygiadau archwilio cynlluniedig wedi'u cwblhau a oedd yn cyfateb i gyfradd gwblhau o 49%.

Rhoddwyd barn archwilio, yn seiliedig ar asesiad o gryfderau a gwendidau'r meysydd a archwiliwyd trwy brofi effeithiolrwydd yr amgylchedd rheolaeth fewnol, i 28 o'r 29 archwiliad a gwblhawyd. Roedd 26 o archwiliadau (93%) wedi cael Sicrwydd Sylweddol neu Resymol a Sicrwydd Cyfyngedig wedi'i roi i 2 archwiliad.

Yn gynwysedig o fewn cynllun 2024/25 roedd 14 o archwiliadau na chafodd eu cynnal neu eu cwblhau yn 2023/24. Roedd Atodiad C i'r adroddiad yn dangos statws yr archwiliadau hyn gyda 12 wedi eu cwblhau.

Roedd cyfanswm o 88 o argymhellion wedi'u gwneud hyd yn hyn i wella'r amgylchedd rheoli. Roedd y cynnydd a wnaed wrth weithredu'r argymhellion blaenoriaeth uchel a chanolig yn cael ei fonitro'n rheolaidd gan y tîm Archwilio ac adroddwyd arno i'r Pwyllgor.

PENDERFYNWYD – Nodi cynnwys yr adroddiad a'r cynnydd a wnaed yn erbyn Cynllun Seiliedig ar Risg Archwilio Mewnol 2024/25.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

MONITRO ARGYMHELLION (PGAMR) –

Roedd yr adroddiad yn rhoi datganiad sefyllfa i'r aelodau ar argymhellion archwilio mewnol a wnaed i nodi'r rhai a oedd wedi'u gweithredu a'r rhai a oedd yn hwyr.

Manylwyd ar ddatganiad sefyllfa mewn perthynas ag argymhellion blaenoriaeth uchel a chanolig archwilio mewnol a wnaed, a weithredwyd ac a oedd yn hwyr ar 31 Rhagfyr, 2024 yn Atodiad A yr adroddiad.

Gwnaethpwyd argymhelliad i wella gwendid a nodwyd mewn rheolaeth i liniaru'r risg a nodwyd, felly hyd nes y byddai'r argymhelliad yn cael ei weithredu, roedd y risg yn parhau.

Hyd yma, gwnaed 5 argymhelliad blaenoriaeth uchel a 36 argymhelliad blaenoriaeth ganolig yn dilyn cwblhau archwiliadau o gynllun blynyddol eleni. Roedd pob un wedi'i gytuno.

Ar hyn o bryd roedd 3 argymhelliad yn hwyr yn cael eu gwneud mewn archwiliadau a gwblhawyd yn ystod 2023-24, manylir ar y rhain yn Atodiad B yr adroddiad.

Gwnaed 2 argymhelliad hefyd mewn archwiliad a gwblhawyd yn 2022-23 a oedd â dyddiadau gweithredu yn y dyfodol o hyd. Roedd manylion y rhain yn Atodiad C i'r adroddiad.

Roedd y tîm Archwilio yn monitro argymhellion yn rheolaidd ac amlygwyd unrhyw oedi neu faterion diangen i'r Uwch Reolwyr ac yn y pen draw i'r Pwyllgor hwn.

Ar gais y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, gwahoddwyd y Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol i'r Pwyllgor i roi sicrwydd bod camau yn cael eu cymryd i weithredu'r argymhelliad y cytunwyd arno. Mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad ar gyfer swyddogion, dywedodd y Pennaeth Adnoddau Dynol fod y Cod Ymddygiad wedi'i ddiwygio yn 2023 a'i gymeradwyo gan y Cabinet ym mis Ionawr 2024. Cyn hynny ym mis Tachwedd 2023, nododd e-bost a anfonwyd at yr holl brif swyddogion eu dyletswyddau mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad yn ogystal â'u dyletswyddau mewn perthynas â'u haelodau staff. Roedd hynny'n ymwneud â'r holl aelodau staff a oedd â mynediad at I-dev neu StaffNet y Cyngor, a hefyd ag aelodau staff nad oedd ganddynt fynediad at y rheiny. Dilynwyd hynny gydag e-bost pellach ym mis Chwefror 2024 i roi gwybod am adroddiad y Cabinet ac i roi gwybod y byddai adolygiad o fanylion personol yn cael ei gynnal yn ystod mis Mawrth 2024. Roedd hynny'n cynnwys dolen i'r Cod yn cael ei hanfon at yr holl aelodau staff, gan gynnwys y rhai nad oedd ganddynt fynediad at StaffNet, ond a allai ddefnyddio StaffNet Plus trwy gyfeiriad e-bost personol. Dangosodd hynny fod yr holl staff â mynediad at y Cod Ymddygiad, ond yr un elfen nad oedd wedi cael sylw oedd dangos bod yr holl aelodau staff wedi darllen y ddogfen. Un opsiwn a oedd yn cael ei ystyried o ran hyfforddiant oedd gofyn i'r holl Benaethiaid Gwasanaeth sicrhau bod staff yn llofnodi dogfen i ddweud eu bod wedi darllen y polisi Cod Ymddygiad a bod cynnwys y polisi wedi'i ddeall.

Dywedodd y Cadeirydd fod angen sicrwydd gan y Rheolwr Gweithredol – Strategaeth ac Adnoddau yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mewn perthynas â'r archwiliad dilynol ar gyfer cydymffurfiaeth adeiladau Ysgol y Deri ac Ysgol Gyfun Sant Cyres.

Wedi hynny, yr oedd

PENDERFYNWYD –

- (1) Nodi'r datganiad sefyllfa ar argymhellion Archwilio Mewnol a wnaed, a weithredwyd ac sy'n weddill ar 31 Rhagfyr, 2024.
- (2) Diolch i'r Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol am ei adroddiad diweddar.
- (3) BOD y Rheolwr Gweithredol – Strategaeth ac Adnoddau yn mynychu cyfarfod nesaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mewn perthynas â'r archwiliad dilynol ar gyfer cydymffurfiaeth adeilad Ysgol y Deri a St. Cyres.

Rheswm dros y penderfyniadau

- (1-3) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL (PGAMR) –

Roedd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio nifer o swyddogaethau a chyfrifoldebau craidd o fewn ei gylch gwaith.

Derbyniodd adroddiadau a chyflwyniadau trwy gydol y flwyddyn i'w alluogi i gyflawni'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau craidd hynny yn effeithiol ac i roi hyder iddo yn rheolaeth ariannol yr Awdurdod.

Er mwyn galluogi'r Pwyllgor i roi'r sicrwydd hwn ac i sicrhau ei fod yn cwmpasu ei ystod o gyfrifoldebau, cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ym mhob cyfarfod, yn nodi'r adroddiadau i'w cyflwyno mewn cyfarfodydd yn y dyfodol, i'w cymeradwyo neu eu diwygio, yn ôl yr angen.

Roedd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol wedi'i diweddarau ar gyfer 2024/25 ac amserlen ddrafft ar gyfer 2025/26 wedi'u cynhyrchu ac wedi'u hatodi yn Atodiad A i'r adroddiad.

Cytunwyd i gyflwyniad ar y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang newydd gael ei gyflwyno i'r Aelodau cyn y cyfarfod nesaf, a nodi bod y Rheolwr Gweithredol – Strategaeth ac Adnoddau i fod yn bresennol i adrodd ar gynnydd gwaith dilynol cydymffurfriad adeilad Ysgol y Deri a St. Cyres.

Wedi hynny, yr oedd

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi'r Rhaglen Gwaith Cychwynnol ddrafft ar gyfer 2024/25 a'r amserlen ddrafft ar gyfer 2025/26.

(2) Cymeradwyo'r rhestr o eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf ar 24ain Mawrth, 2025 yn amodol ar ddileu cyflwyniad ar y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang newydd (i'w cyflwyno i'r Aelodau cyn y cyfarfod nesaf), a nodi bod y Rheolwr Gweithredol – Strategaeth ac Adnoddau i fod yn bresennol i adrodd ar gynnydd gwaith dilynol cydymffurfriad adeilad Ysgol y Deri a St. Cyres.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.